



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Teitl:	<b>Crynodeb o'r ymateb i Adroddiad Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd</b>
Dyddiad:	<b>11 Mawrth 2009</b>
Gan:	<b>Jane Davidson, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai</b>

Ar 1 Rhagfyr 2008, cefas groesawu cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd – “Adeiladu Economi Carbon Isel – cyfraniad y DU i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd”. Mae’r Adroddiad hwn yn rhoi cyngor ynghylch lefelau’r tair cyllideb carbon gyntaf (2008-12, 2013-17 a 2018-22) sy’n gosod y trywydd gorau posibl tuag at gyrraedd targedau 2020 a 2050.

Dros y tri mis diwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn ystyried yr Adroddiad a’n hymateb ni i’w argymhellion, ar sail gwybodaeth gan Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Pleser o’r mwyaf gen i heddiw yw cyflwyno manylion ein hymateb i’r Gwir Anrhydeddus Ed Milliband, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n croesawu targed 2020 ac argymhelliaid y Pwyllgor i newid y targed interim i ostyngiad o 34% yn y nwyon tŷ gwydr yn hytrach na gostyngiad o 26% mewn carbon deuocsid. Rydym hefyd yn cefnogi’r lefelau a nodwyd ar gyfer cyllidebau interim a therfynol y tri chyfnod, a byddem yn dymuno i Lywodraeth y DU fod yn uchelgeisiol wrth bennu’r cyllidebau cyn i fframwaith rhyngwladol newydd gael ei gytuno.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi’r argymhelliaid na ddylai prynu credydau gwrthbwys o fod yn rhan o’r strategaeth ar gyfer cyflawni’r gyllideb interim.

Rydym wedi nodi rhai materion penodol yr hoffem i’r Pwyllgor eu hystyried ymhellach.

Yn gyntaf, byddai o gymorth pe gallai'r Pwyllgor ystyried ymhellach y goblygiadau ar gyfer y cyfraddau gostwng allyriadau blynnyddol o bennu dyddiadau brig eraill ar gyfer yr allyriadau byd-eang. Mae'r Pwyllgor wedi canolbwytio ar 2016 ac wedi gwrthod dyddiad mor hwyr â 2028 am resymau dealladwy, ond byddai asesiad o oblygiadau pennu dyddiad brig interim ar gyfer yr allyriadau, sef tua 2020, yn helpu i ddatblygu polisi gwybodus.

Yr ail fater, sy'n arbennig o berthnasol i Gymru, yr hoffem i'r Pwyllgor ei ystyried ymhellach, yw adborth naturiol a phwysigrwydd cadw'r carbon sydd wedi ei gloi mewn priddoedd.

Mae targedau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer lleihau allyriadau yn gyson â'r trywydd a awgrymir gan argymhellion y Pwyllgor.

Rydym yn cydnabod bod gostyngiadau blynnyddol o 3% yn her, ond rydym hefyd yn gwybod bod gwyddor newid hinsawdd yn dangos y bydd angen gostyngiadau mwy byth yn y dyfodol, a byddwn yn sicrhau ein bod yn y dewis polisiau sy'n ei gwneud yn bosibl cynyddu'r gostyngiadau yn y dyfodol.

Fel y dywedais yn fy natganiad ym mis Rhagfyr ar achlysur cyhoeddi'r adroddiad, mae gwaith eisoes ar droed i ddatblygu Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r ymgynghoriad ynglŷn â cham cyntaf y strategaeth - Datganiad Polisi Lefel Uchel sy'n canolbwytio ar yr heriau a wynebwn oherwydd y newid yn yr hinsawdd a'r meysydd gweithredu bras y dylid canolbwytio arnynt – wedi dod i ben ers 22 Chwefror. Cafwyd dros hanner cant o ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac maent yn gefnogol ar y cyfan i gyfeiriad cyffredinol y Datganiad Polisi Lefel Uchel.

Byddaf yn cyhoeddi ail gam y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer ymgynghori yn yr haf. Bydd hwn yn cynnwys rhaglen weithredu fanwl yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni ein targedau a chyfrannu tuag at dargedau a chyllidebau carbon y DU, a sut byddwn yn ymateb i'r her o addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Mae cysylltiad clir iawn rhwng ein gweithgarwch ni yng Nghymru a'r gwaith a ymgwymerir i ddatblygu polisiau a rhaglenni'r DU ar gyfer cyflawni cylidebau carbon a tharged 2050.

Yn amlwg, mae gan fesurau polisi datganoledig ran bwysig i'w chwarae yng Nghymru, gan gynnwys hyrwyddo effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau a diwydiant, datblygu fframwaith polisi ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, lleihau carbon mewn trafnidiaeth a datblygu polisiau sy'n cefnogi gostyngiad pellach yn y carbon a gynhyrchir gan wastraff, amaeth a defnydd tir.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â phobl, cymunedau a sefydliadau yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac mae Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa dda i gefnogi'r math hwn o weithgarwch yng Nghymru.

Roedd ein hymateb ni yn amlyu cryfderau Cymru o ran ymchwil a datblygu, sy'n ychwanegu at nifer o'r meysydd technolegol pwysig ar gyfer lleihau allyriadau a nodir yn adroddiad y Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys rhaglen beilot

ar raddfa eang ar gyfer dal carbon sy'n cael ei chynnal gan RWE nPower yng ngorsaf bŵer Aberthaw; buddsoddiad mawr gan Ford yn eu ffatri ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gynhyrchu'r injan ynni-effeithlon 'EcoBoost' yn Ewrop, a chanolfan ymchwil flaenllaw ar dechnoleg hydrogen ym Mhrifysgol Morgannwg.

I fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, bydd gofyn cael dull gweithredu sy'n gwahaniaethu yn ofodol, yn hyblyg, ac yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau mewn gwahanol rannau o Gymru. Bydd gan chwe grŵp Ardaloedd y Cynllun Gofodol ran allweddol i'w chwarae o ran paratoi a gweithredu ymateb integredig pob ardal i her y newid yn yr hinsawdd a throi targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gamau gweithredu ar lefel ranbarthol.

Roedd Adroddiad y Pwyllgor hefyd yn amlygu rhai pryderon penodol sy'n berthnasol i Gymru, o ran tlodi tanwydd ac effaith economaidd hynny ar y sector diwydiannol. Bydd angen rhoi sylw i'r materion hynny, o bosibl trwy bolisiâu a rhagleni ychwanegol, yn rhan o'r pecyn mesurau i gyflawni'r cyllidebau carbon.

Ar ôl ystyried ein hymateb ac ymatebion Llywodraeth yr Alban a'r Adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ymateb i'r Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd trwy gyhoeddi lefel y tair cyllideb garbon gyntaf, ar gyfer 2008-2012, 2013-17 a 2018-22, ar yr un pryd â'r Gyllideb ariannol ym mis Ebrill. Yn ychwanegol at y gorchymyn hwnnw, disgwylir y cyhoeddir gorchymynion eraill yn diwygio targed 2020 yn y Ddeddf, yn gosod cyfyngiad ar y defnydd o gredydau yn ystod cyfnod y gyllideb gyntaf ac yn diffinio'r rheolau cyfrifo carbon er mwyn penderfynu a gydymffurfio yd â'r cyllidebau. Rhaid pennu lefelau'r cyllidebau carbon mewn cyfraith erbyn 1 Mehefin 2009.

Unwaith y bydd y cyllidebau carbon wedi'u pennu, bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi adroddiad yn yr haf ar gynigion a pholisiau'r DU i gyflawni'r tair cyllideb garbon gyntaf, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Byddwn yn cyfrannu at yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau bod polisiau a rhagleni Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad hwnnw.

Yn olaf, rhaid i Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd gyhoeddi ei adroddiad cynnydd cyntaf erbyn 30 Medi.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chwarae ei rhan wrth leihau allyriadau. Rydym yn benderfynol y gall Cymru fod ar flaen y gad wrth fynd i'r afael â'r heriau anferthol a wynebwn o ran achosion y newid yn yr hinsawdd, ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r targedau a osodwn i'n hunain.